Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Llwybr y Pysgotwyr a Chwm Bychan, Beddgelert

**ANODD/LLAFURUS**




### Trosolwg o'r Daith

Pellter: 10km (6.2 milltir)

Hyd: 5 awr

Math o daith: Cylchdaith

### Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru

V-20231127/1957



Cerddwch o'r maes parcio tuag at y brif ffordd gan droi i'r chwith heibio'r Ganolfan Groeso.



Anelwch am y bont sydd yng nghanol y pentref ac yna cerddwch ar hyd y lôn gyfyng rhwng y bont fawr a Thŷ Isaf (adeilad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol) gan ddilyn yr arwydd am 'Fedd Gelert'.



Cyn y bont droed, trowch i'r dde gan ddilyn y llwybr ar hyd lan yr Afon Glaslyn.




Ymhen 200m, trowch i'r dde er mwyn ymweld â 'Bedd Gelert'.



Parhewch heibio 'Bedd Gelert' ar eich dde.




Parhewch ar hyd y llwybr er mwyn ailymuno a llwybr glan yr afon gan droi i'r dde er mwyn parhau â'r daith.



Parhewch i gerdded ar hyd llwybr glan yr afon trwy giât bren sydd â dau bysgodyn wedi eu cerfio arni. Dyma ddynodi dechreuad Llwybr y Pysgotwr.



Croeswch y bont droed sydd ger pont y rheilffordd ac ewch drwy ddwy giât mochyn sy'n croesi'r lein. Cymerwch ofal wrth groesi.



Dilynwch y llwybr troed ar hyd yr Afon Glaslyn, ond cofiwch fod yn hynod ofalus oherwydd gall fod yn ofnadwy o lithrig mewn mannau. Cymrwch ofal arbennig o gwmpas Craig y Fwtres sy'n gyfyng iawn.




Croeswch bont pren.




Pan fydd Pont Aberglaslyn yn dod i'r golwg, dilynwch y llwybr wrth ddringo'r grisiau cerrig.




Mae'r darn hwn o'r llwybr yn mynd trwy berthlys deniadol at giât bren.




Gan gadw i'r dde, dilynwch yr arwydd am faes parcio Cwm Bychan. (Mae toiledau ar gael yma).




Wrth i chi ddynesu at y maes parcio, anelwch am y twnnel sy'n rhedeg o dan y rheilffordd.




Dilynwch y llwybr trwy'r coed ac ar ôl pasio giât, ewch ymlaen i fyny dringfa graddol Cwm Bychan.




Ar ôl oddeutu 600m, cewch eich gwobrwyo â golygfeydd gogoneddus o'r Cnicht a'r Moelwynion ar eich dde a Thraeth Bychan tu ôl i chi.




500m ymhellach, byddwch yn mynd heibio peilonau o fwynfa segur.




Ar ôl mynd heibio'r peilon olaf, dilynwch y llwybr i fyny'r cwm.




Ar ôl tua 100m, mi ddewch at raniad yn y llwybr, dilynwch y troad i'r dde a pharhau i fyny'r cwm.




Ar flaen y cwm, ewch dros y gamfa a dilyn y llwybr i'r chwith. Cewch eich gwobrwyo y tro hwn gyda golygfa anhygoel o'r Wyddfa ar eich chwith a Moel Siabod a Nant Gwynant o'ch blaen.




Pan ddewch at gyffordd ger hen safle mwyngloddio Llwyndu, dilynwch y llwybr i'r dde tuag at Llyn Dinas.




Fel mae'r llwybr yn syrthio, mi ddaw Llyn Dinas i'r golwg.




Pan gyrhaeddwch y llyn, dilynwch y llwybr i'r chwith.




Ewch trwy'r giât mochyn a pharhau heibio'r bont gan gadw'r afon ar eich ochr dde.




Ar ôl 500m, ewch trwy giât mochyn arall.




Ar ôl cyrraedd y ffordd darmac, trowch i'r chwith a cherdded heibio mynedfa Tŷ Hen ar eich dde a dilyn y ffordd tuag at Fwynfa Copr Sygun.




Ger y fynedfa at y fwynfa, trowch i'r dde a dilyn y llwybr cyhoeddus ar hyd y ffordd darmac.




Dilynwch y ffordd am ychydig dros 1km nes cyrhaeddwch bont sy'n croesi'r afon tuag at y briffordd, ewch trwy'r giât mochyn ar eich chwith a dilyn y llwybr am 300m pellach.




Ewch trwy ddwy giât mochyn gan ddilyn y llwybr yn syth ymlaen rhwng rhes o dai. Byddwch yn mynd heibio rhesiad arall o dai wrth yr afon.




Ewch dros y bont droed a dilyn yr un ffordd ar ddechrau'r daith i ddychwelyd i'r maes parcio.